

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 - Adran 6

Adroddiad ar Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd

Ecosystemau 2019

Cyngor Cymuned Llanfrothen

Cyflwyniad a'r Cyd-destun

Mae dalgylch Cyngor Cymuned Llanfrothen yn ymestyn o lannau'r Glaslyn ar hyd y Morfa Gwyllt gan ddringo hyd y bryniau i'r dwyrain, nes cyrraedd llethrau serth a chribau'r Cnicht a'r Moelwynion.

Mae yma amrywiaeth o diroedd gan gynnwys tir gwlyb a chorsiog, caeau amaethyddol, tir brwynog, coedwigoedd a llethrau bryniog a chreigiog, ynghyd â nifer o nentydd, afonydd a llynnoedd.

Mae'r ardal yn gartref i amrywiaeth eang o fywyd gwyllt.

Roedd 332 o bobl ar restr etholwyr y gymuned ym mis Ebrill 2020.

Y praesept ar gyfer 2022/23 yw £9,300.

Mae'r Cyngor yn ymrwmo i hyrwyddo cynaliadwyedd a bioamrywiaeth ym mhob agwedd o'u gwaith a'u gwasanaeth.

Mae'r Cyngor yn falch iawn fod cwmnïau lleol a grwpiau elusennol y dalgylch yn parchu ac yn annog cynaliadwyedd a bioamrywiaeth ym mhob agwedd o'u hymddygiad a'u gwaith.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am edrych ar ôl y fynwent.

| Adroddiad Gweithredu | | |
|--|---|---|
| Camau gweithredu i: | | Wedi eu monitro gan: |
| -cynnwys bioamrywiaeth o fewn llunio penderfyniadau a chaffael | Wrth ymateb i geisiadau cynllunio | Cyngor Cymuned Llanfrothen (CCLI), Cyngor Gwynedd (CG), Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) |
| -codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a'i bwysigrwydd | Hyrwyddo llwybrau cyhoeddus yr ardal | CCLI |
| -diogelu y prif rywogaethau a'r cynefinoedd | | |
| -adfer a chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol cydnerth | Newid trefniadau torri gwair yn y fynwent - er budd bioamrywiaeth - ystyried adar, trychfilod, coed a blodau gwyllt | CCLI |
| -mynd i'r afael ag elfennau negyddol: lleihau llygredd e.e. defnyddio atebion yn seiliedig ar natur, mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol | Cael gwared â 'sbwriel a gwastraff o'r fynwent Ymateb i bryderon pobl leol ynglŷn â llygredd o unrhyw fath – cysylltu ag awdurdodau fel Cyngor Gwynedd, Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru | CCLI CCLI, CG, APCE |
| -defnyddio gwella a rhannu tystiolaeth | | |
| -cefnogi capasiti ac/neu sefydliadau eraill | | |

Arolwg o ddyletswydd Adran 6

· Beth sydd wedi gweithio'n dda? Beth fu'r rhwystrau? Beth fyddwch yn ei newid?

Dyma'r adroddiad bioamrywiaeth cyntaf gan CCLI. Byddwn yn ei adolygu ym mis Mawrth, 2023

· Sut a phryd fydd y ddyletswydd Adran 6 yn cael ei monitro a'r cynllun Adran 6 wedi'i adolygu?

Bydd y Cyngor yn adolygu'r adroddiad hwn ym mis Tachwedd bob blwyddyn.

Llofnodwyd: *Nia Povey* Cadeirydd

Llofnodwyd: *Huw Rowlands* Clerc

Dyddiad: 16 Ebrill, 2022